# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 17 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(89)

### 1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 4 a chwestiynau 6 i 15. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Dechreuodd yr eitem am 14:22

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 6 a chwestiynau 11 i 14. Ni ofynnwyd cwestiynau 7, 10 a 15. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

### 3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15:13

**NDM5020**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**

**Russell George (Sir Drefaldwyn)**

**William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cydnabod y potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o Aber Afon Hafren a phwysigrwydd prosiect o'r fath i Lywodraeth Cymru o ran cyflawni ei thargedau ynni adnewyddadwy, yn ogystal â'r potensial i greu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi; a

2. Yn credu, wrth ddatblygu ynni o’r fath, y dylid dylunio’r dechnoleg i echdynnu’r ynni gan sicrhau ei fod yn cael yr effaith amgylcheddol leiaf bosibl, cyn belled ag sy’n rhesymol ymarferol a chymesur.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru**

Dechreuodd yr eitem am 16:07

**NDM5066 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 17:01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5068 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion amrywiol holl blant Cymru.

2. Yn nodi:

a) bod lefel y tlodi plant yng Nghymru yn uwch na holl wledydd eraill y DU;

b) bod cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, a bod bylchau cyrhaeddiad allweddol wedi tyfu; a

c) bod nifer o anghydraddoldebau iechyd yn bodoli rhwng plant yng Nghymru a gweddill y DU.

3. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru yn methu â chyflenwi’r gwasanaethau o ansawdd uchel y mae eu hangen i helpu plant i gyflawni eu potensial llawn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 34 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i hawliau plant a phobl ifanc a'r buddsoddiad sylweddol y mae wedi ei wneud er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant, er enghraifft ehangu Dechrau'n Deg, a'i chymorth i helpu plant i gyflawni eu potensial.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 21 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod yr effaith niweidiol y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar blant sydd eisoes yn byw mewn tlodi yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 15 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 17 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu y bydd ffocws newydd ar wella tai ac iechyd y cyhoedd mewn ardaloedd o amddifadedd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng plant yng Nghymru a phlant yng ngweddill y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud Estyn yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i leddfu effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5068 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion amrywiol holl blant Cymru.

2. Yn nodi'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i hawliau plant a phobl ifanc a'r buddsoddiad sylweddol y mae wedi ei wneud er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant, er enghraifft ehangu Dechrau'n Deg, a'i chymorth i helpu plant i gyflawni eu potensial.

3. Yn cydnabod yr effaith niweidiol y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar blant sydd eisoes yn byw mewn tlodi yng Nghymru.

4. Yn croesawu cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru.

5. Yn credu y bydd ffocws newydd ar wella tai ac iechyd y cyhoedd mewn ardaloedd o amddifadedd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng plant yng Nghymru a phlant yng ngweddill y DU.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud Estyn yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i leddfu effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 15 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18:04

## 6. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18:07

### NDM5067 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Gwella Gofal Dementia – datblygu gwasanaethau di-dor

Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o ddementia yn golygu ei bod yn hollbwysig ailfeddwl am wasanaethau yn ogystal ag agweddau. Gall gwneud diagnosis ac asesiadau yn gynharach gadw pobl allan o'r ysbyty ac mae hynny'n eu galluogi i lunio'r trefniadau ar gyfer eu gofal hirdymor. Mae ar bobl angen gwasanaethau amlddisgyblaethol, hyblyg a chosteffeithiol i'w cefnogi wrth i'w hanghenion newid.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:33

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012**